

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24



28.11.2024

Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol	3
2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r fframwaith llywodraethu	5
3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2023-24.....	7
4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi	25
5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2023-2024)	28
6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2024-2025	38
8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.....	43

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor') yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn ceisio adolygu trefniadau llywodraethu'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyrraedd yr allbwn bwriadol ar gyfer eu rhanddeiliaid/defnyddwyr gwasanaethau. Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar *Delivering Good Governance in Local Government* 2016 CIPFA/SOLACE, Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Gyhoeddus (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

- A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- B: Sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid
- C: Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd
- E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo
- F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn
- G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y ddogfen hon), sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor graidd a'r is-egwyddorion sydd yn ei Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, a sut y mae'n bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn nodi canlyniadau'r adolygiad blynyddol o Drefniadau Llywodraethu'r Cyngor wrth gyflawni ei Flaenoriaethau'r Cyngor ac yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cadarnhaodd yr adolygiad bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithlon ac yn addas i'w ddiben.

Gwnaeth adolygiad y Fframwaith Llywodraethu Blynyddol fesur cynnydd wrth ystyried Fframwaith Llywodraethu Da CIPFA/SOLACE (2016) ac fe ganfuwyd bod y trefniadau llywodraethu ar y cyfan yn dderbyniol ac yn dda. Cadarnhaodd yr adolygiad bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithlon ac yn addas i'w bwrpas.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn gyda chyflawniadau a gofnodwyd ar gyfer pob un o'r saith egwyddor graidd.

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 wedi cael eu hadolygu yn unol â'i God Llywodraethu Corfforaethol Lleol. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol hwn yn ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw er mwyn cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Daeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r casgliad, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo yn ystod 2023/24, bod trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol y Cyngor yn cael eu hystyried yn/da.

Wrth ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, mae'r Grŵp Arweiniol hefyd wedi dod i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor a rheolaethau mewnol yn cael eu hystyried yn da.

Yn ogystal, ystyrir bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn gyda chyflawniadau wedi'u cofnodi yn erbyn pob un o'r saith egwyddor graidd.

Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o fân faterion i'w datrys yn ystod 2023/24 ac mae wedi nodi'r rhain mewn cynllun gweithredu i'w gwblhau (fel y dangosir isod)

Mae'r camau a gymerwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig wedi'u cofnodi, fel y bo'n briodol, ac erbyn hyn fe'u hystyrir yn hanesyddol.

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, megis cynnal datblygu cynaliadwy, dyletswydd llesiant i osod a chyhoeddi amcanion llesiant (a gynlluniwyd i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i'r 7 nod llesiant cenedlaethol) a chymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion.

Strategaeth Gorfforaethol

Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn nodi Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor, sy'n anelu at wella a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Ceredigion ac y bydd y Cyngor yn cyfeirio ei adnoddau iddynt.

Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 (ar gael ar wefan y Cyngor ar: [Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 \(ceredigion.gov.uk\)](https://ceredigion.gov.uk)) gyda chrynodeb o ddogfen ar gael ar: [Crynodeb o'r Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 \(ceredigion.gov.uk\)](https://ceredigion.gov.uk)) yn disgrifio sut y bydd y Cyngor yn ymateb i'r heriau sydd o'i blaen ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.

Gweledigaeth y Cyngor yw sicrhau gwerth am arian, gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy, sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach, wrth hyrwyddo lles pobl a chymunedau Ceredigion. Mae hyn i'w gyflawni drwy gyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol, sy'n:

1. Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth;
2. Creu cymunedau gofalgwr ac iach;
3. Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu i bob oed; a
4. Chreu cymunedau cynaliadwy, mwy gwyrdd a chysylltiedig.

Bydd y camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol yn helpu i wella canlyniadau i bobl leol a gwneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol (gweler isod):



Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu presennol yn monitro sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei Flaenoriaethau Corfforaethol ac yn cadw at ei Strategaeth Gorfforaethol.

Adolygwyd adolygiad y Fframwaith Llywodraethu mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023 gan aelodau a swyddogion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Fframwaith Llywodraethu a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2024. Disodlodd y Fframwaith Llywodraethu y cod llywodraethu corfforaethol lleol blaenorol ac mae'n nodi'r trefniadau llywodraethu cyffredinol o fewn yr awdurdod lleol.

Cyfansoddiad

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'r trefniadau llywodraethu (Rheolau Sefydlog) ar gyfer y Cyngor ac mae'n cael ei ddiwygio'n rheolaidd.

[cyfansoddiad-cym.pdf \(ceredigion.gov.uk\)](https://ceredigion.gov.uk/cyfansoddiad-cym.pdf)

Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr ill dau yn cydnabod pwysigrwydd cael sylfaen gadarn o lywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn addo eu hymrwymiad i fynd i'r afael â'r materion a amlygir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, ac i wella trefniadau llywodraethu'r Cyngor ymhellach.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cadarnhau eu bod wedi cael gwybod am oblygiadau'r adolygiad gan yr Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio ac maent yn fodlon y bydd y camau a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella.

Llofnodwyd ar ran **Cyngor Sir Ceredigion**

Arweinydd y Cyngor

Dyddiad: 28/11/2024

Prif Weithredwr

Dyddiad: 28/11/2024

2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol.

Mae Arweinydd y Cyngor yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'r Cyfansoddiad yn diffinio rolau'r Cyngorwyr a'r Swyddogion yn glir. Mae Timau Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government* (2016). Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdy ar gyfer Aelodau/Swyddogion, lle y dadansoddwyd ac adolygwyd dogfen Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor, a'r newidiadau pellach a wnaed ar ôl y gweithdy wedi'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cafwyd cyfraniadau i'r adolygiad gan yr Aelodau a ganlyn: Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghyd â chynghorydd ac aelodau lle y Pwyllgor. Yn ogystal, roedd y canlynol hefyd wedi cymryd rhan: Swyddog Monitro; Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol; Swyddog Llywodraethu; Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Gwasanaethau Democrataidd; Rheolwr Corfforaethol–Gwasanaethau Democrataidd; Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Pobl a Threfniadaeth; a Rheolwr Corfforaethol–Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

Yn ystod y gweithdy, cyflwynwyd a sgoriwyd pob ymddygiad ar sail system sgorio, fel a ganlyn:

1. Annerbyniol – angen gweithredu'n syth
2. Yn llai na boddhaol – angen gweithredu ar frys (cyn pen 3-6 mis)
3. Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis)
4. Derbyniol – gallai fod angen mân addasiadau
5. Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda a'i fod yn bodloni arfer gorau – nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach

Mae pob sgôr a ddefnyddir yn yr Adolygiad Fframwaith Llywodraethu yn sgôr allan o 5. Caiff yr Adolygiad Fframwaith Llywodraethu ei adolygu gan swyddogion, sydd â chyfrifoldebau llywodraethu/rheoli o fewn y Cyngor, a hefyd gan Grŵp Arweiniol y Cyngor.

Adolygwyd y fframwaith adolygu hefyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24/01/2024 (gweler yr adroddiad yn [Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 24.1.24](#))

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2023/24, gan gynnwys yn ystod y Gweithdy blynyddol, daeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r casgliad bod

Mae'r camau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'u cynnwys yn y Camau Gweithredu a hefyd yn cael eu monitro trwy Log Gweithredoedd y Pwyllgor.

Mae effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac Arolygiadau Mewnol ac Allanol;
- Rheolaeth Ariannol;
- Rheoli Risgiau a Pherfformiad;
- Safonau Moesegol a Chyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac Uwch-Reolwyr Eraill, gan gynnwys Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro;
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; a'r
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Archwiliad Mewnol

Yn ogystal, mae'r Prif Archwilydd mewnol (Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol) yn cynnal adolygiad annibynnol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r dull o sgorio a thystiolaeth, yn flynyddol. Casgliad yr adolygiad oedd bod y systemau a'r prosesau yn foddhaol.

Cwblhawyd yr adolygiad o Adolygiad Fframwaith 2023/24 ym mis Chwefror 2024 a rhoddodd sicrwydd sylweddol bod system gadarn o graffu a chadernid ar waith.

Cafodd hyn ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mis Mawrth 2024 (adroddiad ar gael yn [\(Eitem 12 Fframwaith combined c.pdf\)](#)).

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ac mae wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ddarparu hynny. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe byddent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, effeithiol ac yn economaidd.

Mae Cod Rheoli Ariannol CIPFA yn gosod safonau rheoli ariannol ar gyfer awdurdodau lleol. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi arferion effeithiol mewn rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd cyllidebol. Mae'r Swyddog A.151 wedi cynnal adolygiad hunanasesu ac mae'n fodlon bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r cod.

3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2023-24

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Mae'r paragraffau canlynol yn darparu crynodeb byr o brif gyflawniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2023-24 (ystyriaeth o'r cyflawniadau'n llawn wedi'u hystyried yn llawn yn ystod adolygiad Fframwaith a gynhaliwyd rhwng Swyddogion perthnasol ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r broses adolygu).

Er mwyn osgoi ailadrodd diangen, isod ceir crynodeb o dystiolaeth newydd o waith y Cyngor yn ystod 2023-2024 sy'n berthnasol i bob un o'r egwyddorion A-G yn unig. Am ddadansoddiad llawn o'r dystiolaeth, gan gynnwys ffyrdd parhaus y mae'r Cyngor yn tystiolaethu eu bod yn glynu wrth yr egwyddorion, gweler Adolygiad y Fframwaith Llywodraethu yn [Datganiad Llyw blynyddol 23-24](#).

A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:

Ymddwyn gydag uniondeb

Rhaid i holl Aelodau a Swyddogion y Cyngor gydymffurfio â Chodau Ymddygiad, sydd wedi'u nodi yn y Cyfansoddiad ac sy'n nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau.

Darperir hyfforddiant gorfodol hefyd ar y Cod Ymddygiad a moeseg i Aelodau, yn ogystal â hyfforddiant ar Foeseg/Twyll i Reolwyr.

Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyfreithiol a Llywodraethu yw'r Swyddog Monitro y mae ei ddyletswyddau'n cynnwys sicrhau cyfreithlondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau a chefnogi'r Pwyllgor Moeseg a Safonau. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar fuddiannau'r Aelodau (ac yn cadw'r Gofrestr o fuddiannau), datganiadau o fuddiant a pherthynas Swyddog/Aelodau.

Mae'n ofynnol i aelodau ddiweddarau Cofrestr Buddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, yn flynyddol, sy'n gyfle i gyfeirio unrhyw gysylltiad/rolau personol agos ac ati. Yn ogystal, datganiadau o fuddiant personol a wnaed gan aelodau mewn cyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys aelodau lleyg/annibynnol. Cyhoeddwyd diweddariadau rheolaidd ar ddatganiad buddiant personol a lletygarwch gweithwyr ar safle CeriNet y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol i sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder bod Aelodau a Swyddogion yn gweithio i'r safonau moesegol a moesol uchaf. Mae'n ystyried safonau aelodau a materion ymddygiad, a darparodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor ar 05/06/2023.

Mae gan y Cyngor nifer o bolisiâu a strategaethau ar waith i atal twyll a chyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar Atal Twyll i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21/06/2023.

Cedwir y Gofrestr Swyddi Dan Gyfyngiad Gwleidyddol ar gyfer Swyddogion. Y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol sydd ar gael i weithwyr ar CeriNet.

Mae'r Cyfansoddiad yn destun adolygiadau rheolaidd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl yr angen, gan gynnwys cyflwyno newidiadau arfaethedig i Weithgor Cyfansoddiad Trawsbleidiol, i wneud argymhellion ar newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor. Adroddiad y Swyddog MO/Llywodraethu i'r Cyngor i ddiweddarau dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad. Cyfarfu Gweithgor y Cyfansoddiad dair gwaith yn 2023. 25 Ebril 2023, 26 Medi 2023 a 14 Tachwedd 2023.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy'n cael ei gadeirio gan berson lleyg ac sydd â chyfansoddiad 1/3 Person Lleyg/Aelod, yn ffurfio rhan o broses adolygu'r Datganiad

Llywodraethu Blynyddol yn ystod y cyfnod Gweithdy ar 6 Rhagfyr 2023 ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2023.

Yn ystod mis Ebrill 2023 mae'r adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban, sydd ar gael i Weithwyr a Chontractwyr, wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi ar CeriNet ar gyfer Staff. Mae'r Swyddog Monitro yn cadw cofrestr o atgyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis.

B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion yn bwysig i'r Cyngor. Cyhoeddir ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor a'u hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli (Mawrth 2023 - Mawrth 2024)
- Darpariaeth Gwasanaethau Seibiant a Dydd (Mawrth - Mehefin 2023)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (Mai – Gorffennaf 2023)
- Tyfu Canolbarth Cymru - arolwg Sero Net (Awst – Medi 2023)
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru - Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau (Hydref – Rhagfyr 2023)
- Partneriaeth Natur Leol Ceredigion - Cynllun Gweithredu Adfer Natur (Tachwedd 2023 – Mawrth 2024)
- Partneriaeth Natur Leol Ceredigion - Cefnogaeth ar gyfer Rheoli Dolydd (Rhagfyr 2023 – Ionawr 2024)
- Canolfan Llesiant, Aberteifi (Rhagfyr 2023 – Chwefror 2024)
- arolwg 16+ a NEET (Ionawr – Mawrth 2024)
- Lles Emosiynol Gofalwyr Di-dâl (Ionawr – Mawrth 2024)
- Tyfu Canolbarth Cymru - Cynllunio Ynni Ardal Leol (Ionawr - Mawrth 2024)
- Aildefnyddio hen adeilad llyfrgell Cei Newydd (Chwefror – Mai 2023)
- Defnydd o arian ymddiriedolaeth elusen 'Old County School, Tregaron' yn y dyfodol (Mawrth - Mai 2023)
- terfynau 20mya ar ffyrdd sirol (4ydd i 28ain Ebrill 2023)
- Strategaeth Tai Lleol – 'Tai i Bawb' (Mai – Mehefin 2023)
- Arolwg Rhanddeiliaid Ceredigion (Mehefin – Awst 2023)
- Premiymau Treth y Cyngor ar 2il Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (Medi – Tachwedd 2023)
- Polisi Rheoli Harbyrau (Medi – Hydref 2023)
- Ad-drefnu Ysgolion (Medi – Hydref 2023)
- Adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio (Hydref – Tachwedd 2023)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (Hydref – Rhagfyr 2023)
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Rhagfyr 2023 - Ionawr 2024)

- Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (Ionawr – Chwefror 2024)
- Mae cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu darlledu ar-lein
- Adroddiadau casgliadau IIA i'r Cyngor, Cabinet a Throsolwg a Chraffu.
- Mae adroddiadau cryno ar weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Aelodau a defnyddwyr gwasanaeth.
- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar adolygu ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Lluniwyd set o gwestiynau ar y cyd a fframwaith ymgysylltu ac ymgynghori ac o ganlyniad, cafwyd adborth gan bobl â nodweddion gwarchoddedig.
- Cofnodion grwpiau ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig.
- Cyfranogiad Cymunedol Effeithiol a wneir gyda'r gwaith asesu llesiant.
- Cynnwys Cymunedol Effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth o wahanol gefndiroedd i lywio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.
- Mae Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2019-2022 yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd Strategaeth newydd yn cael ei datblygu yn 2023.
- Mae lledaenu canlyniadau ac adroddiadau ymgynghori ar ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu wedi'u cwblhau yn cael eu postio ar dudalen we cyhoeddus y Cyngor [Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau](#) er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd.
- Mae prosesau wedi'u cyflwyno i fonitro adborth e.e. cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgynghori/ymgysylltu i Graffu a'r Cabinet i lywio eu penderfyniadau.
- Cofnodir adborth o ymgysylltu a sut mae barn pobl wedi'i ystyried yn yr IIAs.
- Cynhaliwyd [asesiad Llesiant](#) (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) a fydd yn llywio datblygiad [Cynllun Llesiant Lleol](#), a gyhoeddir ym mis Mai 2023.
- Adroddiad [blynyddol](#) ar gynnydd a wnaed yn erbyn amcanion Llesiant a blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor.
- UNCRC – Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor.
- Mae Safonau Cyfranogiad wedi cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.

C. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy:

Diffinio canlyniadau

- Mae Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor wedi'u cynnwys yn [Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027](#) ac yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a'u hadrodd yn yr Adroddiad Blynyddol ar yr Hunanasesiad a'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a Llesiant a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.
- Mae pwrpas a gweledigaeth y Cyngor wedi'u pennu gan y Cyngor ac wedi'u cynnwys yn [Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027](#) Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn cefnogi ac yn hyrwyddo lles dinasyddion Ceredigion.
- Mae'r holl drefniadau Cynllunio yn adlewyrchu'r Edau Aur ac yn ffurfio'r cysylltiadau gyda chynlluniau Corfforaethol, gan gynnwys:
 - Cynlluniau Busnes;
 - Cynllun Strategol;
 - Adrodd am Reoli Perfformiad Corfforaethol; ac
 - Amcanion Gwella Llesiant.

- Amlinellir gwybodaeth am [berfformiad](#) yn yr Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar yr Hunanasesiad a'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a Llesiant.
- Caiff Cynlluniau Busnes eu paratoi bob blwyddyn a'u monitro bob chwarter gan Fwrdd Perfformiad, sy'n cynnwys aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae'r broses o bennu cyllidebau yn destun gweithgarwch craffu manwl gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Mae [Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25](#) mewn grym.
- Mae trefniadau perfformiad chwarterol yn darparu protocol herio er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau.
- Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys dyrannu adnoddau.
- Mae'r Grŵp Trawsbleidiol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd yn monitro arbedion cyllidebol a bod gwasanaethau yn cael eu darparu o fewn cyllidebau.
- Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cynnwys asesiad chwarterol o'r risgiau wrth geisio cyflawni canlyniadau neu ddarparu gwasanaethau.
- Mae gweithgarwch rheoli risg yn cynnwys cofnodion risg ar gyfer:
 - Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a
 - Chynlluniau Gwasanaeth (Lefel 2).
- Caiff mesurau perfformiad lleol eu cynnwys mewn cynlluniau busnes a darparu gwasanaethau.
- Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cynnwys:
 - Hawliau Tramwy;
 - Priffyrdd;
 - Cynllun Cyllideb Blynyddol; a
 - Thrawsnewid.
- Cymeradwywyd y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 20 Chwefror 2024.
- Hyfforddiant Rheoli Risg i'w gyflwyno i Aelodau ac Uwch Reolwyr.
- Cynhaliwyd hyfforddiant rheoli risg gydag yswirwyr ar gyfer gwasanaethau unigol a Grŵp Arwain yn ystod 23-24.
- Mae cyhoeddi perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys data costau a gwerth am arian yn cael ei ystyried yn rheolaidd mewn adroddiadau gwasanaeth.

Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

- Mae'r Archwilydd penodedig yn ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ei lythyr mae wedi datgan bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran defnyddio ei adnoddau.
- Cwblheir ffurflen arfarnu cyfalaf ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd, sy'n cwmpasu'r gofynion ar gyfer y prosiect, ac fe'i defnyddir i asesu gwerth am arian a goblygiadau refeniw prosiectau mawr.
- Mae Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf wedi'i chynnwys yn y [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024/25](#).
- Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol tuag at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:
 - Paratowyd Amcanion Llesiant Corfforaethol a datganiad;
 - Ymgorffori'r Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes
 - Datblygu offeryn a chanllawiau [IIA newydd](#)
 - Mae'r Cyfansoddiad yn cael ei fonitro a'i adolygu'n barhaus;

- Ail Asesiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o Lesiant Lleol a gyhoeddwyd yn 2022;
- Trefniadau craffu y cytunwyd arnynt ar gyfer BGC;
- Adroddiadau Cabinet, i gynnwys yr asesiad o effaith Cymdeithasol/econom aidd/amgylcheddol;.
- Mae aelodau wedi cyfrannu at Fframwaith Sgriwtini Swyddogion Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â WFGA.
- Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cyd-fynd â [Strategaeth Gaffael 2018-2022](#). Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhagfyr 2023 i ystyried Strategaeth Caffael a Chomisiynu 2024
- Mae hyfforddiant caffael hefyd yn cael ei gyflwyno.
- [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024](#).
- [Safonau'r Gymraeg](#).
- [Adroddiad monitro Safonau'r Gymraeg blynyddol](#).
- Rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ar Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg.
- Darparodd yr aelodau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb fel rhan o'u Rhaglen Anwytho.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd:

Penderfynu ar ymyriadau

- Mae'r offeryn a chanllawiau IIA ar gael ac mae hyfforddiant wedi'i gyflwyno i Swyddogion ac Aelodau.
- Mae grŵp rheoli prosiect corfforaethol wedi'i sefydlu i ffurfioli datblygiad a rheolaeth prosiect.
- Defnyddir templedi adrodd safonol yn y broses gwneud penderfyniadau.
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol o'r Rhaglen Rheolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r defnydd o'r IIAs, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a MO (CLO). -Cyfreithiol a Llywodraethu) cynghori yn ôl yr angen.
- • Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg gyda rhaglen hyfforddi ar gyfer Aelodau, Uwch Reolwyr a Rheolwyr, wedi'i chyhoeddi ar CeriNet ac ar gael i bob Aelod o'r Staff. Dogfennau wedi'u diwygio i adlewyrchu risgiau ychwanegol a gwybodaeth gefndir i wneud penderfyniadau gwybodus. Adroddir ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#) wedi'i diweddarau'n rheolaidd.
- Mae'r adnodd coeden penderfyniadau ymgynghori yn cynnwys adran arweiniad ar ddsbarthu canlyniadau ymgynghori.
- Her ariannol ynghylch arbedion ar Wefan y Cyngor.

Cynllunio ymyriadau

- Mae trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau chwarterol canlynol:
 - cyfarfodydd wythnosol y Grŵp Arweiniol;
 - adroddiad chwarterol am y cynnydd yn erbyn Cynlluniau Busnes lefel 1;
 - cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad; a

- chyfarfodydd chwarterol y Panel Gweithredol.
- Mae gan yr holl brosiectau cydweithio mawr drefniadau llywodraethu a rheoli sefydledig gan gynnwys rheoli risg.
- Ystyrir pob prosiect gan Banel Rheoli Prosiectau Corfforaethol, a fynychir hefyd gan yr Archwiliwr Mewnol ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer cynghori/herio ac amlygu risgiau wrth i feysydd Gwasanaeth ddatblygu prosiectau, gan gynnwys prosiectau cydweithio.
- Mae'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried yr elfennau canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; lechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill. Mae hyn hefyd yn helpu i nodi gofynion cyfalaf i'w cynnwys mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol.
- Sicrhau bod Staff sy'n meddu ar sgiliau rheoli prosiect ar gael.
- Rhoddir ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol e.e. mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â gweithredu newidiadau deddfwriaethol megis newidiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl a risgiau a rennir (sefydlwyd grŵp Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021).
- Mae trefniadau Craffu ar y Cyd priodol ar waith mewn perthynas â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Yn yr un modd, bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru drefniadau priodol (Craffu ar y Cyd, Safonau a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) – trefniadau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a'i Reolau Sefydlog.
- Pennwyd a chymeradwywyd dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer pob elfen gwasanaeth ac maent wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ac adroddir amdanynt yn rheolaidd.
- Mae'r broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2023-24 wrthi'n cael ei rhoi ar waith a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 ac mae'r rhain yn eu tro yn cael eu trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd ar y mesurau hyn yn ofalus ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan yr uwch arweinwyr. Mae gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.
- Mae Cynlluniau Busnes yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y gyllideb a chyllid ac maent yn rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol chwarterol.
- Fframwaith Cyllideb mewn grym.
- Cyfrifyddu Gwasanaeth – Monitro cyllideb.
- Mae [Rheoliadau Ariannol a Rheolau am y Weithdrefn Ariannol \(Dogfen F y Cyfansoddiad\)](#), ynghyd â Chanllawiau Rheoli Cyllidebol, wedi cael eu diweddarau. Ceir datganiadau Sicrwydd Prif Swyddog. Mae'r trefniadau rheoli mewnol sydd mewn grym yn destun gweithgarwch adolygu rheolaidd gan Archwilywyr Mewnol, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg.
- Mae newidiadau drwy'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod trwy broses lywodraethu gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl arbedion yn cysylltu â'r canlyniad a ddymunir.
- Caiff Buddion Cymunedol eu hymwreiddio yn ein Prosesau a'n Polisiâu ac maent wedi cael eu gweithredu a'u monitro ac adrodd amdanynt yn rheolaidd. Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei hintegreiddio yn ein prosesau.

E. Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinydd a'r unigolion oddi mewn iddo:

Datblygu capasiti'r sefydliad

- Mae trefniadau ymsefydlu corfforaethol ac ar gyfer rheolwyr llinell bellach mewn grym. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ac ymsefydlu Corfforaethol ym mis Ebrill 2018 a'u hadolygu ym mis Hydref 2022. Mae sesiynau ymsefydlu corfforaethol yn rhan o'r gofynion hyn, rhaid i bob aelod o Staff newydd fynychu sesiwn ymsefydlu. Mae Uwch Reolwyr yn cyflwyno yn y sesiynau hyn sydd wyneb-yn-wyneb neu'n rhithiol.
- Caiff CeriNet (yr adnodd a'r mewnwyd AD i Staff a rheolwyr) ei adolygu'n barhaus a'i wella er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.
- Bellach, rheolir Dysgu a Datblygu trwy system Ceri a chynigir cyfleoedd i bob aelod o Staff.
- Cynllun Perfformiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu ag amcanion Corfforaethol a strategol.
- Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu'r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac wedyn yn paratoi'r cynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach wrth gyflwyno arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl Staff trwy gyfrwng system AD Ceri.
- Darparir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd. Trefnir hyfforddiant parhaus ar gyfer materion penodol e.e. rheoli Trysorlys
- Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadledau amrywiol (gweler uchod).
- Mae proses Adolygu Datblygiad Personol yn ei lle ar gyfer Aelodau.
- Defnyddir ymarferion meincnodi ac ymchwil.
- Mae system gyflogres AD Ceri wedi sicrhau bod data ystyrlon am Staff bellach ar gael i Reolwyr bob mis er mwyn monitro costau, trosiant ac absenoldeb.
- Gweithredir partneriaethau yn effeithiol i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn sawl maes a gwasanaeth gan gynnwys:
 - Gwella Ysgolion;
 - Iechyd a Gofal cymdeithasol; a
 - Gwastraff.
- Caiff partneriaethau ychwanegol eu cynnwys yn y Rhestr Prosiectau Cydweithio strategol.
- Mae partneriaethau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y Rhestr Prosiectau Cydweithio strategol.
- Mae cynllunio gweithlu strategol yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pecyn cymorth cynllunio gweithlu strategol a chaiff ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Cymeradwywyd Cynllun y Gweithlu 2023-2028 gan y Cabinet ym mis Medi 2023. Mae diweddariadau blynyddol ar gynnydd cynllunio y gweithlu yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu.

Datblygu gallu arweinydd a sefydliad ac unigolion eraill

- Mae strwythur Arweinydd ac Uwch Reolwyr yn diffinio'r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â'i gilydd.
- Mae cyfarfod ar y cyd rhwng yr Uwch Reolwyr yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.

- Mae disgrifiadau swydd yn diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau gofynnol i swyddi.
- Mae'r [Cyfansoddiad](#) yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau ([Rhan 3.4 Tabl 4](#)) ac Uwch Swyddogion (rhan 2 Erthygl 2).
- Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent.
- Cynigir cyfleoedd Dysgu a Datblygu i'r rheiny sydd mewn rôl Arwain neu sy'n ddarpar arweinwyr.
- Mae Cynllun Dirprwyo (Rhan 3.5 [Cyfansoddiad](#)) yn bodoli ac yn nodi'n glir gyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion.
- Mae protocolau yn eu lle ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod).
- Mae Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau mewn grym.
- Mae gweithgorau Swyddogion ac Aelodau mewn grym ac yn gweithio'n effeithiol.
- Mae [Rheolau Gweithdrefn Contract \(CPR\)](#) Cyfansoddiad Rhan 4 Dogfen G) a'r Rheoliadau Ariannol a'r gweithdrefnau ariannol cysylltiedig (Rhan 4 Dogfen F Cyfansoddiad) yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr.
- Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol.
- Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn, yn ôl yr angen.
- Cytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl Aelodau, a gynlluniwyd i gael eu defnyddio law yn llaw â Fframwaith Datblygu Aelodau (Cymhwysedd) Cymru, Manylebau Person a Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLILC').
- Cyflwynwyd Disgrifiadau Rôl Aelodau a Manylebau Person i'r Cyngor.
- Rhaglen Gynefino/Ymsefydlu Gynhwysfawr ar gyfer Aelodau (hen a newydd) wedi'u cynnal yn dilyn Etholiadau Lleol 2022.
- Mynediad i sesiynau briffio gwybodaeth/cyrsiau am ddeddfwriaeth newydd.
- Cyfleoedd wedi'u darparu i Swyddogion gael hyfforddiant diweddarau a sgiliau yn barhaus.
- Gweithdai i Aelodau wedi'u trefnu yn ôl yr angen.
- Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion
- Darparu cyfleoedd, ac adolygu parhaus ar y cyfleoedd hynny, ar gyfer hyfforddiant sgiliau a diweddarau i Aelodau (gweler uchod), gan gynnwys y Cynllun Adolygu Datblygiad Personol.
- Datblygiad/Hyfforddiant wedi'u gwneud fel rhan o fanyleb y person ar gyfer prif swyddi cyllid a chyfreithiol (cymhwyster gorfodol, gofynion y swydd).
- Nod y Cyngor yw sicrhau'r lefel safonol ar gyfer Siarter Cymru o ran Cymorth a Datblygiad Aelodau.
- Datblygwyd proses ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol Aelodau a defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau.
- Mae cynlluniau Ymsefydlu a Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ar waith.
- Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a'u cyflwyno'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol.
- Cynhelir Arfarniadau Perfformiad gan yr holl staff fel rhan o fodiwl Rheoli Perfformiad ar system Ceri.
- Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu'r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac wedi hynny yn paratoi cynlluniau gweithredu ar gyfer sicrhau gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff.
- Cynhelir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd a chynhaliwyd rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr newydd ar ôl yr etholiad (o fis Mai 2022) gyda modiwlau e-

ddysgu ychwanegol ar gael. Trefnir hyfforddiant parhaus ar gyfer materion penodol. Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).

- Gwneir gweithgarwch hunanasesu craffu bob blwyddyn gan gynnwys arolwg.
- Gwneir cynllunio olyniaeth trwy drafodaethau a champau gweithredu o fewn meysydd gwasanaeth a gyda phartneriaid ni ellir dangos hyn bob amser. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy becyn cymorth strategol cynllunio'r gweithlu.
- Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn cynnig datblygiad personol gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol.
- Anogir a chynorthwyr aelodau i gwblhau Adroddiadau Blyneddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mynychu'r Rhwydwaith Cenedlaethol, wedi'i gynnal gan CLILC.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn mynychu Cyfarfodydd Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru Gyfan er mwyn datblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Mae cynlluniau datblygu staff sy'n gysylltiedig ag arfarniadau wedi'u cryfhau drwy gyflwyno'r modiwl Rheoli Perfformiad yn Ceri.
- Gweithredir polisiau Adnoddau Dynol priodol a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.
- Polisi Gweithle Di-Fwg.
- Polisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrediad o adnoddau a dewisiadau er mwyn gwella iechyd a lles Staff.
- Cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu.
- Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Lles Cyflogeion er mwyn cydlynu a hyrwyddo iechyd a lles yn y gweithlu.
- Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion, sy'n cynnig:
 - Gwasanaeth cwnsela;
 - Cyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofal i'r henoed, gofal plant a chyflogaeth.
- Mae'r cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:
 - Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;
 - Cynllun gofal llygaid;
 - Cynllun talebau gofal plant;
 - Iechyd Da; a
 - Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.
- Mae gwasanaeth cwnsela hefyd ar gael i Aelodau.

F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn:

Rheoli risgiau

- Cymeradwywyd y Fframwaith Rheoli Risg Corfforaethol a'r Polisi a Strategaeth Rheoli Risg gan y Cabinet ar 20 Chwefror 2024 ac maent yn parhau i gael eu diweddarau.
- Ystyrir y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol, cyfarfodydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol ac fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio materion i Bwyllgorau Craffu pan fo hynny'n briodol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth barhaus a sicrwydd bod risgiau'n parhau i gael eu rheoli.

- Caiff pob risg eu neilltuo i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog y Risg).
- Gwneir gwaith Monitro Risgiau prosiectau penodol.
- Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o sefydlu Polisi a Strategaeth cynllunio busnes gweithredol.
- Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o weithgarwch cynllunio busnes gweithredol a phennu Strategaethau a Pholisïau.
- Cofnodir holl Risgiau trawsnewid a phrosiectau.
- Mae pob Cynllun yn cynnwys cofnodion Risgiau, gan gynnwys:
 - Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
 - Cynlluniau Busnes (lefel 1);
 - Cynlluniau Gwasanaeth (lefel 2).
- Mae trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.
- Mae rheoli risgiau wedi'i gynnwys mewn rhaglenni archwilio gwasanaethau/sefydliadau Gwasanaethau unigol.
- 'Risgiau' sy'n sail i gynllun gwaith blynyddol Archwilio Mewnol
- Templed adroddiad Cabinet wedi'i ehangu i gynnwys risgiau a goblygiadau sy'n codi.

Rheoli perfformiad

- Mae rheoli perfformiad corfforaethol yn gysylltiedig â'r Amcanion Llesiant a Gwella, Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 a chynlluniau'r BGC. Mae gan y Cyngor hefyd lawer o ddangosyddion lleol sy'n ei helpu i benderfynu a yw wedi cyflawni'r blaenoriaethau yn ei Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 ai peidio.
- Cymeradwyodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol ar yr Hunanasesiad ac Adolygiad Blynyddol o Amcanion Perfformiad a Llesiant 2022-23.
- Casglwyd gwybodaeth feincnodi fel rhan o weithgarwch ailfodelu gwasanaethau.
- Aseidiadau mewnol ac allanol gan:
 - Archwilio Cymru;
 - Estyn;
 - Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGGC');
 - Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('ICPO'); a
 - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO').
- Cwblhawyd Hunanasesiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23 yn ystod 2023/24 ac fe'i cyflwynwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2023. Mae Hunanasesiad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023/24 wedi'i gwblhau ac fe'i cyflwynwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Hydref 2024
- Mae gwasanaethau unigol yn cynnal gweithgarwch hunanasesu trwy gyfrwng matrices perfformio.
- Mae Archwilio Mewnol yn cynnal hunanasesiad blynyddol ac maent yn cael adolygiad cymheiriad / asesiad allanol annibynnol bob 5 mlynedd gan PSIAS. Aseu ansawdd yn allanol (EQA) wedi'i gwblhau fis Mai 2022, adroddiad a chynllun gweithredu yn deillio o hwnnw wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 27.9.22 ynghyd â Hunanasesiad Archwiliad Mewnol Rheolwr Corfforaethol– Archwilio Mewnol. Daeth yr asesydd allanol i'r casgliad bod swyddogaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r PSIAS. Ar hyn o bryd mae'r swyddogaeth yn cydymffurfio â 50 o'r meysydd arfer gorau, cydymffurfiaeth rannol mewn chwe maes a dim ardaloedd o ddiffyg cydymffurfio.
- Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i'r Panel hwn a chyhoeddir y dyddiadau

ar gyfer adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu ar sail yr egwyddor y gallant nodi meysydd y mae gofyn eu cynnwys yn eu Blaenraglenni Gwaith priodol nhw.

- Mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau. Rhoddir cyngor gan y Prif Swyddog Ariannol a'r Swyddog Monitro hefyd.
- Mae trefniadau craffu mewn grym ac sy'n cynnig cyfleoedd i herio gweithgarwch gwneud penderfyniadau ac adolygu darpariaeth gwasanaethau. Nod y swyddogaeth graffu yw cynnig gwerth ychwanegol i'r agenda gwelliant parhaus yn eu rôl fel "cyfaill beirniadol". Yn ogystal, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnig cyfleoedd i wneud gwaith datblygu polisi a gwaith cyn gwneud penderfyniadau, sy'n swyddogaeth craffu, a hyn wedi'i ddatblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu, pan fo modd, cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud.
- Rhoddir hyfforddiant i Aelodau ar rôl Craffu a hyfforddiant i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Craffu.
- Bydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion](#) (BGC).
- Gwneir gwaith gyda [Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol](#) er mwyn datblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â DLICD.
- Mae Bwrdd Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter, ac estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu fynychu.
- Pennir dyddiadau adrodd ar ddechrau pob blwyddyn.
- Atgyfeirir Trawsnewid a Risgiau i gyd-gyfarfodydd a Phaneli Llywodraeth Leol.
- Cyflawnir gwaith monitro ariannol yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniant cyfrifyddu datganoledig a chaiff gwaith adrodd ffurfiol ei gyflwyno i'r Cabinet. Caiff gwaith monitro ei gynnwys yn yr adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol hefyd.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi ac fe'u hadroddir i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnir gweithgarwch rheolaidd i fonitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Mae Archwiliwr Mewnol yn adolygu trefniadau rheoli o ran monitro a chasglu incwm hefyd.
- Caiff cynlluniau Busnes/Gwasanaethau eu monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau cyflawni.

Rheolaeth fewnol gadarn

- Cymeradwywyd Polisi a Strategaeth Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 20 Chwefror 2024.
- Mae'r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob chwarter.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rheoli Parhad Argyfwng a Busnes i adolygu Trefniadau a Chynlluniau Parhad Argyfwng a Busnes Ardal Gorfforaethol a Gwasanaethau yn ogystal ag argymhellion sy'n deillio o ddigwyddiadau ac ymarferion yn y gorffennol i ddangos risg, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a dogfennu unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer dilyniant.
- Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol yn seiliedig ar risg ac yn cyd-fynd â nodau ac amcanion, polisiâu corfforaethol a gweithdrefnau'r Cyngor; adolygiadau o'r trefniadau Rheoli Risg i gynnwys profi'r rheolaethau lliniaru sydd ar waith ar gyfer sampl o risgiau a nodir yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Strategaeth Archwilio Fewnol a Chynllun Blynyddol 2024-2025 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2024.
- Gall cynllun archwilio blynyddol yr Archwilydd Mewnol roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i'r Archwilydd Mewnol fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.
- Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w monitro (e.e. Adroddiad Cynnydd Archwilio

Mewnol ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2023 i 31 Rhagfyr 2023 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2024).

- Mae adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd i Reolwyr yn tynnu sylw at y risgiau o beidio â gweithredu unrhyw gamau gweithredu a argymhellir gan yr IA. Dilynir camau gweithredu sylfaenol a sylweddol a argymhellir ac adroddir ar weithredu camau gweithredu rheolwyr i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r Rhaglen Camau Rheoli. Os yw CMIA o'r farn nad yw Rheolwr wedi mynd i'r afael ag unrhyw risgiau sylfaenol, caiff hyn ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd â'r disgrisiwn o ofyn i'r Rheolwr hwnnw fod yn bresennol ac egluro rhesymu dros beidio â chydymffurfio.
- Crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ar sicrwydd a ddarperir yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ddiwedd y flwyddyn. Adroddiad Blynyddol IA ar gyfer 2023/24 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 16 Gorffennaf 2024.
- Caiff prosesau rheoli mewnol, risg a llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol (y fersiwn olaf a gymeradwywyd gan [Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio](#) ym mis Ionawr 2024) a'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Mae'r Archwilydd penodedig yn ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei lythyr ei fod wedi datgan bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau i ddefnyddio ei adnoddau.
- Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd ('CIPFA', 2014).
- Mae gan Archwilydd Mewnol weithdrefnau ar waith os darganfyddir twyll.
- Mae dau swyddog yn nhîm IA yn Dechnegwyr Gwrth-dwyll Achrededig, ac mae swyddog arall yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwiliol ('CCIP').
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021) ac fe'i hysgrifennwyd mewn perthynas â'r Cod Ymarfer a'i diweddarau i sicrhau y caiff yr holl ofynion eu cynnwys.
- Mae'r Archwilydd Mewnol yn gwneud gwaith atal twyll yn ôl y gofyn (yn ogystal â delio gyda gweithgarwch darganfod twyll fel yr ystyriwyd yn gynharach).
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan yr Archwilydd Mewnol ar hyn o bryd.
- Mae'r Archwilydd Mewnol yn cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn ([Adroddiad Archwilio Mewnol c.pdf \(ceredigion.gov.uk\)](#) 21/06/2023).
- Gwneir gwaith monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);
- Mae'r Archwilydd Mewnol yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal;
- Mae Swyddogion enwebedig o'r Cyngor yn gwneud hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd;
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Gall cynllun archwilio blynyddol yr Archwilydd Mewnol roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i'r Archwilydd Mewnol fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.
- Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys barn flynyddol y Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol ar sicrwydd.
- Mae'r swyddogaeth Archwilio Fewnol yn cael ei harwain gan Reolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol sy'n gymwys gan y CIA ac sydd â phrofiad sylweddol o lywodraeth

leol ac sy'n cael ei chefnogi gan dîm sydd â gwybodaeth a sgiliau priodol. Gwneir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar weithgaredd IA. Mae rhaglen waith flaen gadarn sy'n seiliedig ar risg a chynllunio busnes ar waith.

- Mae aelod arall o'r tîm IA yn gymwys a CIA ac un arall yn rhannol gymwys.
- Mae IA yn gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu yn unol â PSIAS, sy'n cael ei hunanasesu a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol ynghyd ag unrhyw welliannau sy'n ofynnol. Mae IA yn rhoi sicrwydd unigol i reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio – defnyddir y rhain wedyn i ddarparu lefel gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd yn flynyddol, sy'n bwydo i mewn i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Hunanasesiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - ymarfer hunanasesu wedi'i gwblhau.
- Mae'r Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, MO, S151, ac Archwilio Cymru pan fo angen.
- Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen rhwng y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Trefnir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r rheolydd allanol Archwilio Cymru (gyda Swyddogion a hebddynt).

Rheoli data

- Cymeradwywyd y [Strategaeth TGCh a Gwasanaethau Digidol](#) ar gyfer 2018-2022.
- Mae'r holl bolisiâu wedi cael eu diweddarau (cymeradwywyd pob un ym mis Chwefror 2019) gan gynnwys:
 - o Polisi Diogelu Data a GDPR (diweddarwyd yn 2023)
 - o Polisi Diogelwch Gwybodaeth; (i'w ddiweddarau 2024) a
 - o Polisi Rheoli Cofnodion. (i'w ddiweddarau 2024)
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelwch Gwybodaeth.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelu Data.
- Mae Swyddog Diogelu Data dynodedig.
- Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Cyswllt Cwsmeriaid yw'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ('SIRO') ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl honno.
- Nodir y Swyddogion cyfrifol canlynol:
 - Swyddog Diogelwch TG ('ITSO'); a
 - Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth ('IRMO')
- Yn ogystal, mae'r grwpiau/pwyllgorau canlynol yn ystyried diogelwch gwybodaeth:
 - Grŵp Diogelu Data Corfforaethol;
 - Cyfarfod Parhad Busnes ac Argyfyngau.
- Aseidiadau allanol i gynnwys cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno a mabwysiadu'r Fframwaith Asesu Seibr ar draws yr holl Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Archwiliadau Mewnol rheolaidd ar ofynion cofrestru diogelu data.
- Mae gweithdrefnau yn dilyn archwiliad Archwilio Cymru wedi'u rhoi ar waith.
- Mae swyddogion yn ystyried cyflwyno hysbysiadau preifatrwydd mewn perthynas â cheisiadau i'r holl Aelodau, gan gynnwys y Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer Aelodau ar eu rhwymedigaethau o dan y GDPR fel rhan o'r hyfforddiant newydd i Aelodau ac mae adran ar y ddeddfwriaeth honno bellach wedi'i chynnwys yn y protocol ar gyfer Aelodau wrth gynllunio.

- Llofnododd Cyngor Sir Ceredigion Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ('WASPI'), felly mae'n defnyddio fframwaith WASPI ar gyfer Cytundebau Rhannu Gwybodaeth.
***Mae'r cytundeb yn gasgliad cyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol drwyddynt. Bydd sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad wrth fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion cytunedig o fewn y fframwaith.
- Yn rhan fwyaf yr achosion, anfonir cytundebau ymlaen i'r Swyddog Diogelu Data.
- Ceir cofrestr gyhoeddus ar wefan WASPI hefyd.
- Aseidiadau allanol rheolaidd e.e. cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
- Tystiolaeth a monitro perfformiad mewnol.
- Caiff data ei groes-gyfateb ar draws y gwahanol wasanaethau.
- Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda chymorth tystiolaeth.
- Amserlen Gadw – bellach wedi'i chyhoeddi ar y fewnwyd.

Rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

- Cymeradwywyd fersiwn diweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('MTFS') gan y Cyngor Llawn ar 21/09/23. Mae hyn yn adlewyrchu Setliad Terfynol LIC 2023/24 a Setliad Cymru Gyfan dangosol Llywodraeth Cymru 2024/25 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2023/24 i 2026/27. Ystyriwyd hyn hefyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19/07/23 a'r Cabinet ar 05/09/23.
- Mae bellach yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae'r SATC yn cynnwys risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddarau o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r gweithgarwch blynyddol er mwyn pennu'r gyllideb yn cynnwys asesiad risg. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) 2016, gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni SATC trwy sicrhau bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i fodloni'r sialensiau sylweddol a fydd yn codi yn y dyfodol.
- Datblygwyd Cynllun Strategol ac mae wedi gwella'r rhaglen waith sy'n angenrheidiol er mwyn ystyried blaenoriaethau gwasanaeth wrth roi sylw i gyfyngiadau ariannol.
- Pennir amserlen/cynllun prosiect cyllideb flynyddol er mwyn sicrhau y caiff cyllideb gytbwys ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.
- Cyflwynir adroddiadau cyllideb rheolaidd i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn a chaiff cyllidebau gweithredol eu monitro bob mis.
- Mae gweithgarwch monitro'r gyllideb yn digwydd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, i'r Cabinet ac i weithgorau Swyddogion sy'n Aelodau e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen drawsnewid i'r Grŵp Trawsbleidiol Ymgynghorol am Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.
- Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol yn ôl y gofyn gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Gyllid a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Gyllid.

G.Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol:

Gweithredu arferion da o ran tryloywder

- [Gwefan Y Cyngor](#).
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet.
- Templedi safonol ar gyfer y Cabinet, Craffu a'r Cyngor.
- Cydymffurfio â [Safonau'r Gymraeg](#)
- Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr.
- Mae manylion cyswllt Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb, eu haelodaeth o Bwyllgorau a'r Datganiadau Datgelu Buddiannau ar gael ar [Wefan Y Cyngor](#).
- Mae adroddiadau blynyddol Cynghorwyr ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar [Wefan Y Cyngor](#).
- Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democraidd ar gael ar wefan y Cyngor.
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, mae offer wedi'i osod yn Siambr y Cyngor i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid. Mae'r Cyngor yn cynnig ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gallant ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â'i Lyfrgelloedd lle gall y cyhoedd droi at gyfrifiaduron sydd ar gael neu wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim, sy'n caniatáu i unrhyw un ddefnyddio eu dyfais eu hunain.

Gweithredu arferion da mewn adroddiadau

- Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol ar yr Hunanasesiad ac Amcanion Gwella a Llesiant y Cyngor Sir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion er mwyn hysbysu dinasyddion Ceredigion o'r gweithgareddau a'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd er mwyn cefnogi ei Amcanion Gwella a Llesiant. Mae hyn yn rhan o hunanasesiad y Cyngor hefyd. Mae cynllun cryno ar gael hefyd mewn swyddfeydd cyhoeddus ar gyfer ein dinasyddion.
- Cyhoeddir [datganiadau ariannol blynyddol](#) ar wefan y Cyngor.
- Mae [Datganiad Llywodraethu Blynyddol](#) y Cyngor yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â saith Egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion sydd yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys sut y mae'n gweithredu trefniadau cywir er mwyn llywodraethu ei faterion, yn hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risg (datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe'i diwygiwyd yn unol â Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIFA/SOLACE 2016). Mae'n cydymffurfio hefyd â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith ar gyfer llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Penderfyniad i'w wneud gan y Cyngor ynghylch cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ai peidio, ynghyd â'r Datganiad Cyfrifon.
- Rhannwyd y [Datganiad Llywodraethu Blynyddol](#) gyda chyfrifon, gan ei adolygu a'i ddiweddarau gydag Aelodau a Swyddogion gan gynnig proses ymgysylltu ehangach.
- Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos bod y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol mewn grym ganddo er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol. Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad er mwyn eu cynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet. Diweddarwyd [Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol](#) (Dogfen F y Cyfansoddiad), a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G y Cyfansoddiad).
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer, caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi a'u hadrodd i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cynhelir

gweithgarwch rheolaidd er mwyn monitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r Archwilydd Mewnol yn adolygu trefniadau rheoli ynghylch casglu a monitro incwm.

Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol

- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru a rheolyddion allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rheolyddion allweddol.
- Cofnodir Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau mewn grym er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru, a bod ymatebion Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Archwilio Cymru.
- O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') a materion llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu parhaus. Disgrifir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddarau (er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Gwella a Pherfformiad Corfforaethol yn eu swydd) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod ei gyfarfod ar 9.9.2021.
- Cynhelir cyfarfodydd misol hefyd rhwng Swyddogion Perfformio ac Archwilio Cymru a gellir eu trefnu â swyddogion eraill os oes angen. Ceir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy'n monitro rhoi'r camau gweithredu cywiro gofynnol ar waith.
- Mae proses er mwyn monitro cynnydd Camau Gweithredu wedi'i datblygu.
- Mae'r Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol yn gymwys a CIA, gyda profiad sylweddol o lywodraeth leol ac sy'n cael ei chefnogi gan dîm sydd â gwybodaeth a sgiliau priodol.
- Mae swyddog pellach yn nhîm yr IA yn gymwys gan CIA, gydag un arall â chymhwyster rhannol.
- Mae Swyddogion IA yn cael hyfforddiant archwilio i wella gwybodaeth, sgiliau a chymwysedd.
- Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Mehefin 2022.
- Mae gan rôl CMIA fynediad rhydd a dilyffethair at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
- Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch gweithgarwch Archwilio Mewnol, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwella, a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd mewn Adroddiad Blynnyddol Archwilio Mewnol bob blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro camau gweithredu cywirol.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio yn Mis Ionawr 2024).

- Mae CMIA yn rhoi barn wrthrychol flynyddol ar y sicrwydd a roddir ar brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Cyngor, yn seiliedig ar y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio, ac yn bwydo i mewn i'r AGS.
- Cynhaliwyd asesiad ansawdd allanol ar y swyddogaeth IA yn 2022 pan ddaeth yr asesydd allanol i'r casgliad bod swyddogaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio'n gyffredinol â PSIAS. Gyda'r swyddogaeth ar hyn o bryd yn cydymffurfio â 50 o'r meysydd arfer gorau, cydymffurfiad rhannol mewn chwe maes a dim meysydd o ddiffyg cydymffurfio.
- Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a dirnadaeth seiliedig ar risg a gwrthrychol. Manylir ar hyn yn y Siarter Archwilio Mewnol, sydd hefyd yn datgan hawl mynediad yr IA (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor).
- Sefydliar cytundebau Partneriaeth ac Atebolrwydd mewn prosiectau cydweithredol.

4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae'r Rheolwr Corfforaethol-Archwilio Mewnol (CMIA) yn paratoi Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir fel rheol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhoi'r farn archwilio gyffredinol am sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw. Mae'r sicrwydd a roddir hefyd yn rhoi sylw i gynnydd o ran gweithredu gwelliannau, ystyriaeth o'r gofrestr risgiau, a'r sicrwydd a roddir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol. Yn yr adroddiad ceir manylion ynghylch cwmpas y gwaith archwilio, a'r angen i ail-flaenoriaethu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei gyflawni ar gyfer rhoi sicrwydd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys canlyniadau'r archwiliad mewnol hunanasesiad blynyddol o'r gwasanaeth, yn seiliedig ar dempled Nodyn Cais LG CIPFA. Roedd hyn yn destun adolygiad cymheiriaid allanol ar 27 Medi 2023.

Daeth yr asesydd allanol i'r casgliad bod swyddogaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r PSIAS. Ar hyn o bryd mae'r swyddogaeth yn cydymffurfio â 50 o'r meysydd arfer gorau, cydymffurfiaeth rannol mewn chwe maes a dim ardaloedd o ddiffyg cydymffurfio.

Lluniwyd Adroddiad am gynnydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-2024 a Chynllun Gweithredu'r Flwyddyn Gyfredol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24ed Ionawr ac 14eg Mawrth 2024.

Mae'r strwythur staffio Archwilio Mewnol wedi bod yn llawn yn ystod y flwyddyn 2023-2024.

Mae Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/2023-30/6/2023 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27/09/2023 a'r cyfnodau dilynol i'w disgwyl ar , 24/01/2024, 14/03/2024 a 19/06/2024) yn cynnwys y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma er mwyn cyflawni'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd.

Ar 09 Mawrth 2023, cyflwynodd y CMIA y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Diben hwn yw sicrhau bod gwaith

yn cael ei gyflawni ar lefel ddigon eang i ategu'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, gwaith rheoli risgiau, a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 yn crynhoi'r meysydd gwaith yr oedd yr Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd y CMIA Strategaeth a Chynllun IA ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2024.

Mae gwaith archwilio mewnol wedi'i asesu yn barhaus ac mae anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor wedi cael eu hystyried yn rheolaidd. Yn ychwanegol i'r gwaith adweithiol hwn, rhoddir sicrwydd ar gyfer 2023/24 ar adolygiadau a gynllunnir ac sy'n parhau neu'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn asesu lefel flynyddol y sicrwydd ar gyfer y Cyngor. Mae'r holl gamau gweithredu a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r nodyn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Archwilio Mewnol. At hynny, mae rhagor o adnoddau wedi'u neilltuo i ddatblygu'r system mapio sicrwydd er mwyn ategu ymhellach y sicrwydd a roddir ar ddiwedd y flwyddyn.

Daeth y CMIA i'r casgliad yn ei Hadroddiad Blynyddol 2023/24 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Gorffennaf 2024 bod gan y Cyngor fframwaith boddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar waith i reoli cyflawni amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar:

- nifer, cwmpas a'r sicrwydd a gafwyd o'r adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024,
- a'r ffaith bod y rheolwyr wedi derbyn y camau a gymerwyd (pan fo modd).

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r wybodaeth sydd ganddo ac â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth, fel y nodir ym Mhwynt 2 uchod.

Mae Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Cyngor - Cyswllt Cwsmer, TGCh a Digidol yn gweithredu fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yr Awdurdod ac mae'n gyfrifol am Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Mae'r SIRO yn cadeirio grŵp Seiber Gydnerth a Llywodraethu Gwybodaeth (CRIGG) traws-gyngor sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc o bob maes gan gynnwys gwasanaethau eiddo, diogelu data, TG, Archwilio, AD a Chyllid. Mae hwn yn cyfarfod bob mis i drafod materion seiber, rheoli risg gwybodaeth.

Mae'r rolau allweddol presennol a chraffu ar Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

Mae'r rolau allweddol presennol a chraffu ar Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Mae Swyddog Diogelwch TG ('ITSO') yn arwain ar ddiogelwch data a chyflogir cynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol i gynnal profion rheolaidd a chynghori ar drefniadau diogelwch yr Awdurdod.
- Mae Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion ('IRMO') yn cynghori ar gydymffurfiaeth gyfreithiol ac yn sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn eu lle ac yn cael eu dilyn;

- Mae Swyddog Diogelu Data penodedig yn arwain ar yr holl faterion diogelu data a darperir gwasanaeth DPO i'n holl ysgolion.

Yn ogystal:

- Mae'r tîm Diogelu Data Corfforaethol a Llywodraethu Gwybodaeth yn cyfarfod yn fisol ac yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Corfforaethol dros TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth.
- Mae Cyber Resilience yn eitem sefydlog ar y grŵp arweinyddiaeth corfforaethol wythnosol.
- Mae risg a chynnydd yn cael eu hadrodd yn fisol i'r Bwrdd Perfformiad.
- Mae adroddiad SIRO blynyddol yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet.
- Mae SIRO yn cadeirio grŵp Cyflawni Fframwaith Asesu Seiber (FfAC) WLGA
- SIRO yw is-gadeirydd bwrdd Rhaglen CAF WLGA
- ITSO yw is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (CymruWARP) sy'n cyfarfod bob chwarter.
- DPO yw cadeirydd Grŵp Swyddogion Diogelu Data Awdurdodau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.
- Mae DPO yn rhan o WASPI - Panel Sicrhau Ansawdd Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu, bernir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dda ar y sail bod mwyafrif y sgorau a roddwyd yn 4/5.

5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2023-2024)

Mae'r tabl canlynol yn cofnodi'r camau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2023-24 i ddatrys y materion a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022-2023, y Swyddog Arweiniol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cam gweithredu a'r dyddiad cwblhau disgwyliedig. Mae gan y Swyddog Arweiniol gyfrifoldeb i sicrhau bod y cam gweithredu'n cael ei nodi mewn manylder, yn cael ei fonitro a'i ddiweddarau yn eu Cynllun Busnes Gwasanaeth personol. :

Sylwer: bydd unrhyw gamau gweithredu nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad cwblhau yn cael eu cario ymlaen i Gynllun Gweithredu 2024-2025.

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny	<p>Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am y Cod Ymddygiad.</p> <p>Y Swyddog Monitro barhau i roi cyngor i Brif Swyddogion am yr angen i ddatgelu:</p> <ul style="list-style-type: none"> cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill <p>Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion</p> <p>Adolygu Aelodau sy'n dal cyfarwyddion, ymddiriedolaethau neu aelodaeth.</p> <p>Swyddog Monitro i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol aelodaeth o gyrff allanol.</p>	<p>Canlyniad: ymgorffori ymddygiad uniondeb ymhellach</p> <p>Cynnydd: Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion wedi'i ddiwygio a'i gymeradwyo. Cyngor gan y Swyddog Monitro yn parhau</p>	Elin Prysor /Lowri Edwards	<p>Mawrth 2024</p> <p>Cyflawn</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<p>Cod Ymddygiad a adolygwyd ar gyfer Swyddogion i'w gyhoeddi unwaith y bydd yn cael ei gymeradwyo.</p> <p>Swyddogion i gwblhau modiwl e-Ddysgu Moeseg/Twyll Gorfodol ar ôl ei gwblhau a'i gymeradwyo.</p> <p>Sefydlu camau/dogfennau llywodraethu ar gyfer Rheoli Cynlluniau/Datblygiadau, darparu hyfforddiant ac adolygu cynnydd yn ystod 2023-2024</p> <p>Ar hyn o bryd mae trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Archwilio Cymru i gefnogi Adolygiad Dilynol y Gwasanaeth Cynllunio. Bydd unrhyw argymhellion yn cael eu hateb.</p>	<p>Modiwl e-Ddysgu gorfodol Twyll a Moeseg wedi'i gwblhau. Bydd yn cael ei lansio ar 12/12/2023 i holl weithwyr y Cyngor ei gwblhau</p> <p>Yn parhau Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu. Hydref 2023</p>		
<p>A1.3 Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer</p>	<p>Sefydlwyd gweithredoedd/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli Cynllunio/Datblygu, hyfforddiant i'w ddarparu a symud ymlaen i'w adolygu yn ystod 2023-2024.</p>	<p>Canlyniad: ymgorffori a chyfathrebu ymhellach o'r Egwyddorion Gweithredu Safonol a gwerthoedd.</p> <p>Cynnydd: Cyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllunio ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024. Prif ffocws y</p>	<p>Elin Prysor/ Lowri Edwards</p>	<p>Mawrth 2025</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
gwneud penderfyniadau a chamau gweithredu eraill	Ar hyn o bryd mae trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Archwilio Cymru i gefnogi eu Hadolygiad Dilynol y Gwasanaeth Cynllunio. Bydd unrhyw argymhellion yn cael eu hateb.	trafodaethau fu ar argymhellion yn ymwneud â'r canlynol: Proses cyfnod oeri; Panelau arolygu safleoedd; Proses atgyfeirio aelodau; Gorfodaeth; a mesurau perfformiad cynllunio. Adroddwyd am newidiadau i weithdrefnau gweithredol PRhD i grŵp weithgor y Cyfansoddiad a'r Cyngor	Russell Hughes Pickering	
A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisiâu a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol	Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi.	<p>Mae Cofrestrau Penderfyniad Dirprwyedig Contract a Gorchmynion Diogelu Coed eisoes wedi'u cyhoeddi.</p> <p><u>Cofrestr gyhoeddus Penderfyniad Dirprwyedig:</u></p> <p>Penderfyniwyd y Grŵp Arweinyddiaeth i beidio â chyhoeddi ym mis Mai 2024.</p> <p>Nodir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar hyn o bryd dim ond tri Awdurdod Cymraeg sy'n cyhoeddi Cofrestr Penderfyniadau 	Elin Prysor/Katy Sinnett-Jones	Mawrth 2024 Rhannol gyflawn

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>Dirprwyedig gyhoeddus gynhwysfawr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwybodaeth berthnasol eisoes ar gael yn gyhoeddus yn bennaf. • byddai angen golygu gwybodaeth sensitif • Mae penderfyniadau dirprwyedig Gorchmynion Rheoleiddio Traffig o hyd byr iawn yn aml • Cyhoeddir penderfyniadau cynllunio gydag agenda'r Pwyllgor Rheoli Datblygu • gwerthu/caffaeliadau eiddo yn cael eu cymeradwyo i raddau helaeth gan y Cabinet • Cymeradwyir cytundebau mabwysiadu ffyrdd S38 gan y Cabinet <p>Bydd y Gofrestr yn cael ei hymestyn i gynnwys cyhoeddi penderfyniadau dirprwyedig yn ymwneud â:</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<ul style="list-style-type: none"> • gwerthu/gwaredu a chaffael eiddo (gan gynnwys trafodion gyda throthwy gwerth o fwy na £25k, a Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol) • TROs-Parhaol/Arbrofol <p><u>Cofrestr gyhoeddus Prif Swyddogion o Fuddiannau Busnes Personol:</u></p> <p>Penderfyniad y Grŵp Arweinyddiaeth i beidio cyhoeddi ym mis Mai 2024.</p> <p>Nodwyd bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae datganiadau buddiannau Prif Swyddogion eisoes yn cael eu datgelu'n fewnol a'u hadolygu'n flynyddol. • Cedwir cofrestr fewnol. • Mae'r diddordebau hyn yn cael eu datgelu i Archwilio Cymru. 		Cwblhau

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<p>Parhau i fonitro cwblhau modiwl e-ddysgu gorfodol Chwythu'r Chwiban.</p> <p>Polisi chwythu'r chwiban i'w adolygu a'i gymeradwyo.</p> <p>Cyflwyno ffurflenni Cod Ymddygiad a Datganiad Buddiant Personol Diwygiedig i'r Pwyllgor Craffu</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dim ond un awdurdod Cymraeg sy'n cyhoeddi Cofrestr • Nad oedd unrhyw fuddiant personol i'w ddatgelu ar hyn o bryd • Roedd gan Brif Swyddogion ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd mewn perthynas â gwybodaeth breifat. • Mae risg o or-rannu gwybodaeth bersonol swyddogion. <p>Cymeradwywyd Polisi Chwythu'r Chwiban gan y Cabinet.</p> <p>Cymeradwywyd gan y Cabinet</p>		<p>Wedi'i cwblhau Ebrill 2023</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	Adroddiad ar weithgarwch chwythu'r chwiban generig i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.			Wedi'u cwblhau
A3.1 Sicrhau bod aelodau a Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i'r gyfraith, yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol	Hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer cynghorwyr sy'n cael eu datblygu ac i'w darparu gan y Swyddog Diogelu Data.	Mae templed hysbysiad preifatrwydd wedi'i greu a'i rannu gyda chynghorwyr fel rhan o hyfforddiant SDD.	Elin Prysor/Lowri Edwards	Cyflawn
A3.2 Creu'r amodau i sicrhau bod y Swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac aelodau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.	CMIA i gwblhau cymhwyster proffesiynol	Canlyniad: Sicrhau bod deiliaid swyddi allweddol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Cynnydd: Tystysgrif Archwilio Mewnol (CIA) wedi'i gwblhau ym mis Tachwedd 2023	Elin Prysor/ Alex Jenkins	Rhannol gyflawn

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	Cwblhau adolygiad o Gynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sydd ar y gweill.	Bydd adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei gynnal dros y flwyddyn nesaf gyda chefnogaeth Cefnogaeth Busnes Corfforaethol. Mae'r gefnogaeth hon yn cael ei rhoi oherwydd y pwysau brys o fewn y tîm o ran ymateb i'r cyhoedd.	Alun Williams /Marie-Neige Hadfield	Parhaus
B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig	Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd, 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' wedi'i gyhoeddi. Dylid ystyried gweithredu'r polisi hwn cyn i'r gweithredu gael ei gwblhau.	Canlyniad: Gwella ymgysylltiad cymunedol. Cynnydd: Mae'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad, 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' wedi'i weithredu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae dau adroddiad diweddar wedi'u darparu i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyda chynnydd da yn erbyn pob cam. Nid oes gan unrhyw gamau gweithredu statws 'RAG' coch ar hyn o bryd.	Alun Williams	18/10/2022 Wedi'u cwblhau
D2.3 Ystyried a monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth	Parhau i roi ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.	Canlyniad: Rheoli risg a chydymffurfio â deddfwriaeth i ddangos ymrwymiad i reolaeth y gyfraith.	Alun Williams/Elin Prysor	20.02.2024 Wedi'u cwblhau

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir	Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir.	Cynnydd: Yr holl newidiadau angenrheidiol a wnaed i'r Cufansoddiad		
E2.2 Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r rhai a gedwir ar gyfer gwneud penderfyniadau cyfunol y corff llywodraethu	Cofrestr Penderfyniad Dirprwyedig i'w chyhoeddi.	Canlyniad: gweler A1.4 uchod	Elin Prysor	Rhannol gyflawn
G3.1 Sicrhau bod argymhellion ar gyfer camau cywiro a wneir gan archwiliad allanol yn cael eu gweithredu	Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion – gweithredu'n parhau.	Sicrhau a rheoli risg. Cynnydd: Cyflwynwyd MRF i GAC fel rhan o Gynllun Gweithredu parhaus. Diweddariadau yn cael eu hailystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Ychwanegir argymhellion at ddangosfwrdd Perfformiad Teifi i	Elin Prysor/Alun Williams/Alex Jenkins	Wedi'u cwblhau Gorffennaf 2024

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		fonitro argymhellion rheoleiddwyr allanol yn electronig.		

6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2024-2025

Yn dilyn gweithredu ac adolygu Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government* (2016) nodwyd y materion canlynol (gweler y tabl isod) wedi cael eu nodi i'w datrys yn ystod 2024-2025. Mae'r tabl yn nodi'r mater, y cam gweithredu, y canlyniad dymunol, y Swyddog Arweiniol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cam gweithredu ac amcan o'r dyddiad cwblhau. Mae gan y Swyddog Arweiniol gyfrifoldeb i sicrhau bod y camau gweithredu hefyd yn cael eu manylu, eu monitro a'u diweddarau yng nghynlluniau busnes eu Gwasanaeth eu hunain:

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.2 Sicrhau bod Aelodau'n arwain wrth sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)	<p>Sefydlwyd gweithredoedd/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli Cynllunio/Datblygu, hyfforddiant i'w ddarparu a symud ymlaen i'w adolygu yn ystod 2023-2024.</p> <p>Ar hyn o bryd mae trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Archwilio Cymru i gefnogi eu Hadolygiad Dilynol y Gwasanaeth</p>	<p>Ymgorffori a chyfathrebu ymhellach o'r Egwyddorion Gweithredu Safonol a gwerthoedd.</p> <p>Cyfarfu'r Grŵp Tasg a Gorffen Cynllunio ar 7 a 24 Mehefin 2024 ac eto ar 19 Gorffennaf 2024. Mae prif ffocws y trafodaethau wedi bod ar argymhellion yn ymwneud â'r: Broses Ystyried; Paneli Archwilio Safle; proses atgyfeirio aelodau; Gorfodaeth; a</p>	<p>Elin Prysor/ Lowri Edwards</p> <p>Russell Hughes Pickering</p>	Mawrth 2025

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		Chynllunio mesurau perfformiad		
<p>A1.4 Arddangos, cyfathrebu ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol trwy bolisiâu a phrosesau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol</p>	<p>Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi.</p> <p>Ymestyn y gofrestr penderfyniadau dirprwyedig i gynnwys cyhoeddi penderfyniadau dirprwyedig yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwerthu/gwaredu a chaffael eiddo (gan gynnwys trafodion gyda throthwy gwerth o fwy na £25k, a Throsoglwyddiadau Asedau Cymunedol) • TROs-Parhaol/Arbrofol 	<p>Mae Cofrestrau Contract a Gorchmynion Cadw Coed eisoes wedi'u cyhoeddi.</p>	<p>Elin Prysor</p>	<p>Mawth 2025</p> <p>Rhannol Gyflawn</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
<p>A3.2 Creu'r amodau i sicrhau bod y Swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac aelodau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. RhCAM i gwblhau cymhwyster proffesiynol</p>	<p>Sicrhau bod deiliaid swyddi allweddol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.</p>	<p>Cwblhawyd Tystysgrif Archwilio Mewnol CMIA (CIA) Tachwedd 2023, yn dod yn ei blaen yn dda gyda'i chymhwyster ILM Lefel 4 ac yna bydd yn ceisio ennill ei chymhwyster Archwiliwr Mewnol Siartredig.</p>	<p>Elin Prysor / Alex Jenkins</p>	<p>Rhannol gyflawn</p>
<p>A3.5 Sicrhau yr ymdrinnir â llygredd a chamddefnyddio pŵer yn effeithiol</p>	<p>Cynnal Asesiad Risg Gwrth-dwyll ar draws yr awdurdod i gynhyrchu Asesiad Twyll.</p>	<p>Cynhaliodd IA Asesiad Risg Atal Twyll ledled yr awdurdod ym mis Tachwedd 2023. Canlyniadau ffurflen Asesu Twyll a bwydo i mewn i gynllun IA ac Adroddiad Blynyddol Gwrth-dwyll.</p>	<p>Alex Jenkins</p>	<p>Tachwedd 2023</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
B1.1 Sicrhau diwylliant agored drwy arddangos, dogfennu a chyfleu ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	Adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth	Bydd adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei gynnal dros y flwyddyn nesaf gyda chefnogaeth Cefnogaeth Busnes Corfforaethol. Mae'r gefnogaeth hon yn cael ei rhoi oherwydd y pwysau brys o fewn y tîm o ran ymateb i'r cyhoedd.	Alun Williams /Marie-Neige Hadfield	Parhaus
B3.2 Sicrhau bod dulliau cyfathrebu yn effeithiol a bod Aelodau a Swyddogion yn glir ynghylch eu rolau o ran ymgysylltu â'r gymuned	Adolygu Polisi Cyfryngau Cymdeithasol (2018).	Mae adolygiad o'r polisi wedi dechrau. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn mynd trwy ymgynghoriad gyda'n hundeb llafur cydnabyddedig cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.	Geraint Edwards	Mawrth 2025
D2.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth benderfynu sut y dylid cynllunio a darparu gwasanaethau a chyrsgiau gweithredu eraill	Gofynion adolygu ar gyfer Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol	Adolygiad yn 2025	Lowri Edwards	Myhefin 2025
E2.2 Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau	Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi.	Adolygiad yn 2025	Elin Prysor	Rhannol gyflawn

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
sy'n cael eu dirprwyo a'r rhai a gedwir ar gyfer gwneud penderfyniadau cyfunol y corff llywodraethu				
E2.9 Cymryd camau i ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ei hun a sicrhau bod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol o adolygiad ac arolygiadau cymheiriaid	Adolygiad Panel wedi'i drefnu ar gyfer 2024	Cynhaliwyd adolygiad panel yr wythnos yn dechrau 30 Medi 2024.	Lowri Edwards / Alun Williams	

7 Casgliad

Mesurodd yr adolygiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu cynnydd yn erbyn Fframwaith newydd *Delivering Good Governance* (2016) CIPFA/SOLACE a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o'r saith egwyddor craidd. Mae datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n dod â'r holl godau a'r holl ddogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith. Nododd y Cyngor gynllun gweithredu i'w gwblhau ar gyfer 2024/25 (fel yr uchod).